Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gynradd Heol-Y-Celyn**
**Holly Street**
**Rhydyfelin**
**Pontypridd**
**RhCT**
**CF37 5DB**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Heol-Y-Celyn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mehefin 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn tynnu'r ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella medrau ysgrifennu'r disgyblion yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gallu rhan fwyaf y disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig yn Gymraeg ac yn Saesneg yn datblygu'n dda ac yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae athrawon yn darparu ysgogiadau diddorol ar gyfer ystod o dasgau priodol a phenodol sy'n herio disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu llythyrau fel rhan o'u gwaith testun, a disgrifiad o ddraenog a cherddi acrostig fel rhan o'u thema Nadolig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig, gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol a sillafu'r geiriau mwyaf cyffredin yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau hir yn effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn ystod dda o genres. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu storïau creadigol, dyddiaduron, cyfarwyddiadau a cherddi. Mae pob un o'r athrawon wedi derbyn hyfforddiant addas mewn datblygu ysgrifennu ar draws y cyfnod allweddol. O ganlyniad, mae trosolwg defnyddiol gan yr ysgol o ba genres i'w cyflwyno ar gyfnodau gwahanol, a strwythur effeithiol i ddatblygu ysgrifennu pob disgybl. Ar draws y cyfnod allweddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio atalnodi yn gyson dda ac mae eu sillafu yn gywir yn gyffredinol. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau estynedig i safon uchel iawn, gan ddefnyddio sillafu cywir a geirfa eang. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda mewn ysgrifennu ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae canlyniadau asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn 2016 yn dangos gwelliant sylweddol mewn ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth wedi cael ei hymgorffori am gyfnod digon hir i ddangos gwelliant cynaledig mewn safonau.

### Argymhelliad 2: Codi safonau yn y Gymraeg a Chymraeg ail iaith ar draws yr ysgol

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae athrawon wedi derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf ar draws yr ysgol. Maent yn cynllunio gwaith yn effeithiol i ddatblygu ystod addas o genres ysgrifennu. Mae dull athrawon o gynllunio ar gyfer ysgrifennu yn

gyson. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu, ac yn eu helpu i gynllunio'u gwaith yn ofalus. Maent yn darparu amrywiaeth dda o dasgau ysgrifennu estynedig sy'n herio'r disgyblion yn effeithiol.

Mae marcio'r athrawon yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau ysgrifennu disgyblion, gan gynnwys atalnodi, sillafu a chyflwyniad. Mae bron pob athro yn ymateb yn bwrpasol i waith disgyblion, gan nodi beth maent yn ei wneud yn dda, a sut gallant wella eu gwaith. Maent yn annog disgyblion i wella eu medrau iaith drwy ddefnyddio idiomau a geirfa ddiddorol. Yn aml, mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn effeithiol, gan gyfeirio at feini prawf llwyddiant sy'n cael eu gosod gan y disgyblion eu hunain weithiau. Mae bron pob athro yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ddarllen ac ymateb i'r marcio, ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb i hyn yn gadarnhaol ac yn briodol.

Mae medrau darllen, ysgrifennu a gwrando rhan fwyaf y disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn gwella'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn arddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg, ac maent yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio a deall yr iaith. Maent yn siarad yn hyderus am destunau cyfarwydd, ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn Gymraeg yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn dilyn patrymau brawddegau sylfaenol i'w helpu i ysgrifennu eu brawddegau eu hunain am destunau a themâu cyfarwydd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad am ystod dda o destunau cyfarwydd gyda chywirdeb ac ynganiad da. Maent yn adrodd ac yn perfformio barddoniaeth yn eisteddfod yr ysgol ac eisteddfod yr Urdd, gyda chywirdeb a goslef dda. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn briodol am eu hoedran, ac yn ysgrifennu i safon dda mewn ystod briodol o arddulliau a chyd-destunau.

Erbyn hyn, mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol, ac mae hyn yn sicrhau dilyniant da rhwng dosbarthiadau. Maent yn sicrhau bod disgyblion o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn gweithio gyda'r rheini sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith i wella eu darllen a'u llefaredd. Er enghraifft, yn ystod rhai sesiynau darllen dan arweiniad yng nghyfnod allweddol 2, mae un grŵp yn gweithio gyda'r 'bocs Cymraeg' gyda chymorth cyd-ddisgyblion o'r dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Yn ddiweddar, ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae disgyblion o'r dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn arwain rhai o'r sesiynau dyddiol 'helpwr heddiw' yn y dosbarthiadau ail iaith. Mae'r mentrau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu ac ar hyder disgyblion i siarad Cymraeg.

**Argymhelliad 3: Gwella cyflawniadau disgyblion gallu uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae polisi priodol gan yr ysgol sy'n amlinellu'n glir sut mae'r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog. Mae athrawon yn nodi disgyblion sy'n rhagori mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, ac yn olrhain cynnydd yn briodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae athrawon wedi cael hyfforddiant i ddatblygu strategaethau addysgu penodol sy'n helpu disgyblion i weithio ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Er enghraifft, cafodd pob athro hyfforddiant ar dechnegau holi effeithiol a darparu her i ddisgyblion mwy abl.

Erbyn hyn, mae cynlluniau tymor byr bron pob un o'r athrawon yn darparu ystod o weithgareddau sy'n targedu grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn cynnwys gweithgareddau ymestyn i herio disgyblion ymhellach, er enghraifft trwy ddarparu her fathemategol gymhleth, neu dasg ysgrifennu ysgogol. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw rhai o'r gweithgareddau hyn yn darparu her ddigon cadarn i ddisgyblion gallu uwch.

Mae disgyblion gallu uwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol gyda disgyblion o ysgolion eraill yn yr ardal. Er enghraifft, bu disgyblion o ben uchaf cyfnod allweddol 2 yn gweithio gyda phedair ysgol gynradd arall i gynhyrchu cylchgrawn yn Gymraeg a Saesneg fel rhan o brosiect clwstwr.

Yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd diwethaf, bu gwelliant graddol yng nghyflawniad disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl yn y rhan fwyaf o bynciau. Fodd bynnag, mae gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen dros yr un cyfnod yn parhau'n amrywiol ar draws y meysydd dysgu. Yn gyffredinol, mae gwaith disgyblion yn adlewyrchu'r asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol, ac er bod gwelliannau cadarnhaol yn y ddarpariaeth, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith lawn ar safonau.

**Argymhelliad 4: Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu ac asesu ar draws yr ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr ysgol a staff wedi gweithio'n dda â'i gilydd i fynd i'r afael ag anghysonderau yn yr addysgu. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu a lefel yr her ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion wedi gwella. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu. Maent yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uwch. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigon cadarn i gyflawni eu gorau.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn arfarnu eu haddysgu eu hunain ac yn nodi llwyddiannau a meysydd i'w gwella sy'n llywio'u cynlluniau i'r dyfodol yn briodol. Mae rhan fwyaf y staff yn defnyddio taflenni gwaith yn fwy cynnil, ac mae hyn wedi helpu gwella ansawdd y cyflwyniad yn llyfrau'r disgyblion ac wedi datblygu gallu disgyblion i weithio'n fwy annibynnol.

Ceir dull cyson o farcio ym mron pob dosbarth, ac mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ymateb i'r marcio er mwyn addasu, mireinio neu wella eu gwaith. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith rhai eraill, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddata i asesu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Erbyn hyn, mae system olrhain ysgol-gyfan gadarn sy'n cynorthwyo athrawon i osod targedau heriol ar gyfer eu disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol, er enghraifft i flaenoriaethu ymyriadau addas er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth fanwl am yr ysgol, gan gynnwys data perfformiad ac adroddiadau ar weithgareddau monitro gan staff a swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae dealltwriaeth gadarn gan y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol dros gyfnod, gan gynnwys gwybodaeth sy'n eu galluogi i wneud cymariaethau gydag ysgolion tebyg. Er enghraifft, fe wnaeth y llywodraethwyr herio'r ysgol yn briodol yn ddiweddar ynglŷn â pherfformiad disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl mewn gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae arweinwyr yn dechrau gweithredu strategaethau gwella ac wedi cyflwyno deunydd cwricwlwm newydd a hyfforddiant staff i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol ynglŷn â'i pherfformiad. Mae'r llywodraethwyr yn cael cyngor a chymorth priodol gan ffynonellau allanol, fel gan lywodraethwr ymgynghorol ysgol gerllaw a chan ymgynghorwyr y consortiwm. Erbyn hyn, mae mwyafrif y llywodraethwyr yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau hunanarfarnu, fel teithiau dysgu, er mwyn cynyddu'u dealltwriaeth ac i arfarnu'r ddarpariaeth a safonau. Mae llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am argymhellion yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn cyfarfod â staff yn rheolaidd i gefnogi, monitro a herio cynnydd yn briodol yn erbyn yr argymhellion. O ganlyniad, mae trosolwg gwell gan lywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu, ac maent yn dechrau herio arweinwyr a staff ynglŷn â'i chynnydd yn fwy effeithiol. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar wella'r ddarpariaeth a safonau. Er enghraifft, maent yn cymryd mwy o ran i gefnogi'r uwch dîm rheoli pan fyddant yn delio â thanberfformio mewn addysgu, ac mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth a safonau gwell.

Mae llywodraethwyr yn dechrau ymgorffori diwylliant o herio yn eu cyfarfodydd, ac yn ddiweddar maent wedi dechrau codi cwestiynau mwy treiddgar ynglŷn ag addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu mae hyn.

**Argymhelliad 6: Cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol a, gyda chefnogaeth y tîm rheoli, mae wedi rhoi proses hunanarfarnu gynhwysfawr ar waith. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i dystiolaeth uniongyrchol o ystod o ffynonellau addas. Ar sail y dystiolaeth hon, mae'r broses hunanarfarnu yn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella, gyda ffocws clir ar wella'r addysgu a chodi safonau.

Mae adroddiad hunanarfarnu presennol yr ysgol yn llawn gwybodaeth ac yn ddogfen weithio ddefnyddiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn amlinellu canlyniadau a blaenoriaethau clir, ac yn cynnwys amserlen addas ar gyfer monitro ac arfarnu cynnydd. Mae gan yr uwch dîm rheoli rolau monitro priodol yn y broses hon, ac mae eu cyfraniad at arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn datblygu'n dda.

At ei gilydd, mae adroddiadau monitro yn nodi cryfderau a diffygion yn effeithiol, yn enwedig yn yr addysgu. Mae'r adroddiadau arfarnol hyn yn cynnwys 'ffyrdd ymlaen' buddiol i amlygu gweithgareddau gwella pellach, ac maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac ar safonau a deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.